**CEU 07**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol** | **Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE** | **Culture and the new relationship with the EU**

Ymateb gan: Llyfrgell Cenedlaethol Cymru Evidence from: National Library of Wales

# Gan fod y Pwyllgor yn trafod effaith ymadawiad y DU â'r UE ar y sector diwylliannol, beth yw eich barn chi am y themâu a ganlyn ynghylch yr ymchwiliad i ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r UE?

## Effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol sy'n teithio ac yn gweithio ar draws ffiniau (gan gynnwys teithio a gweithio yng Nghymru)

Mae'r cwestiwn hwn yn amherthnasol i ni.

## Effaith y trefniadau masnachu newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau diwylliannol

Yr effaith fwyaf yr ydym ni wedi'u gweld yw wrth brynu offer ar gyfer ys efydliad o wledydd y UE: mae'r broses yn arafach, ond heb achosi gorfod o drafferth i ni.

## Argaeledd canllawiau a chymorth ar gyfer y sector sy'n ymwneud â'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE

Mae'r canllawiau a ddefnyddir gennym ni'n hygyrch a dealladwy.

## Yr effaith ar fynediad i raglenni cyllido a rhwydweithiau

Mae'r UE wedi cefnogi nifer o brosiectau'r Llyfrgell yn y gorffennol ac afraid dweud y bydd ein diwylliant ni'n dlotach yn y dyfodol o fod yn methu derbyn grantiau'r UE. Nid oes dim wedi cymryd eu lle hyd yma.

## Unrhyw newidiadau i'r berthynas rhwng y DU a'r UE a allai wella trefniadau gweithio ar draws ffiniau ar gyfer y sector diwylliant

Rhaid canmol ymdrechion Llywodraeth Cymru wrth adeiladu perthynas â rhai o aelodau'r UE, fel Ffrainc er enghraifft, sy'n rhoi cyfleoedd i sefydliadau Cymru feithrin perthynas â hwy yn ogystal. Gobeithiwn y bydd strategaeth diwylliant Llywodraeth Cymru (eto i'w chyhoeddi) yn agor llwybrau newydd i ni fedru adeiladu pontyndd diwylliannol newydd rhyngon ni â'n cymdogion yn Ewrop.